

Meddygon Meddfai

Gwlad y rygbi? Gwlad y gân? Gwlad y glowyr? Gwlad y chwarelwyr? Ai dyna ydy Cymru? Nage wir, mae Cymru yn enwog am bethau eraill hefyd! Un o'r rheiny, coeliwch neu beidio, ydy meddygon. Un teulu enwog o feddygon oedd Meddygon Myddfai.

Gwylwch y ddau glip fideo i gael eu hanes ond peidiwch â beio'r rhaglen hon os byddwch yn sâl ar ôl arbrofi gydag un o'u meddyginiaethau! (medicines)


Gwario gwirion

Roeddwn i bob amser yn meddwl mai pwrpas mynd i ysbyty oedd cael gwared o salwch. Ond mae pethau wedi newid! Erbyn heddiw mae pobl yn defnyddio meddygaeth am resymau hunanol.

Mae'n amlwg bod gan rai pobl ormod o arian ac maen nhw'n ei wario ar newid y ffordd maen nhw'n edrych. Mae'r bobl yma yn hollol hunanol yn fy marn i. Maen nhw'n gwastraffu amser y meddygon, dwyn gwelyau mewn ysbytai a gwneud i bobl sy'n sâl go iawn orfod aros am driniaeth. Beth yw eich barn chi ar yr hyn mae'r bobl yma wedi ei wneud?

16 mlynedd o lawdriniaethau i edrych fel ei arwr!

Gwariodd Herbert Chavez, sy'n deiliwr, 300,000 pesos mewn cyfnod o 16 mlynedd i newid ei ymddangosiad i edrych fel Clark Kent... gan gynnwys yr ên a'r steil gwallt!



Model o Japan yn gwario \$100,000 ar lawfeddygaeth plastig i edrych fel dol Ffrengig r!

Mae model o Japan wedi gwario 10 miliwn yen ar 30 triniaeth cosmetig. Dywed Vanilla Chamu ei bod am barhau gael triniaethau hyd nes y bydd yn cyrraedd ei nod mewn bywyd – edrych fel dol Ffrengig.



Llun gan [Teinteresa](#)

Julie Chen yn cael llawfeddygaeth plastig i edrych yn llai Tseineaidd.

Mae Julie Chen, y cyflwynydd Tseinaeaidd/ Americanaidd ar y rhaglen The Talk wedi datgelu ei bod wedi cael triniaeth i wneud i'w llygaid edrych yn fwy. Pan oedd Julie, sydd bellach yn 43 oed, yn ohebydd ifanc yn Ohio dywedodd rhywun wrthi ei bod yn rhy Tseineaidd i gael gwaith fel cyflwynydd.



Llun gan [Hollywood Reporter](#)

Nain sydd am edrych yn hŷn.

Mae Anne Bolton sy'n 47 oed ac yn fam i 4 wedi cael digon ar bobl yn meddwl ei bod tuag 20 oed. Mae'n ystyried cael llawfeddygaeth plastig i wneud iddi edrych ei hoed! Mae am gael gwallt sy'n britho, rhychau o gwmpas ei llygaid ac ennill pwysau.



Llun gan [DBV](#)

A beth am yr enwogion yma o fyd chwaraeon sy'n gwario ar feddygaeth er mwyn gwella eu sgiliau a dod yn fwy enwog yn eu maes?

Tiger Woods a Vijay Singh

Efallai mai'r chwaraewr golff enwocaf i gael triniaeth laser ar ei lygaid (ddwywaith) oedd Tiger Woods a'r golffiwr diweddaraf yw Vijay Singh.



Jodie Shann

Byddai Jodie Shann sy'n aelod o dim Triathlon Prydain, yn cael trafferth gyda lensys mewdol, 'Roedd gwisgo lensys tra'n rasio a hyfforddi yn niwsans. Roeddwn yn cael trafferth i'w cael i'm llygaid ar gyfer y sesiwn ymarfer am 6 a.m. ac arbyn diwedd y pwn byddai fy llygaid yn sych. Roeddwn hefyd yn poeni am eu colli tra yn nofio neu am gael eli haul arnyn nhw. Roedd hyn yn gwneud i fi weld yn aneglur! Mae cael triniaeth laser wedi newid fy mywyd!'



Ond efallai mai'r gwaethaf ydy'r bobl sydd am glonio plentyn. Pobl sydd yn meddwl cymaint ohonyn nhw eu hunain fel eu bod am gael plentyn sy'n union fel nhw! Ydych chi'n cofio beth ddigwyddodd i Dolly, y ddafad gyntaf i gael ei chlonio? Marw yn ifanc o haint sydd ddim yn arfer digwydd i ddefaid yr oed yna. Ie, dyna neges go bwysig i unrhyw un sydd yn defnyddio meddygaeth am resymau hunanol.

Chredwch chi byth

FFEITHIAU ANHYGOEL!


Dyma rai credoau am wella gwahanol salwch

- Pasio'r plentyn deirgwaith o dan fol mul yn gwella'r pas
- Tynnu dant twrch daear byw a'i roi yn y geg yn gwella'r ddannodd
- Rhwymo'r pen gyda rhaff sydd newydd grogi person yn gwella cur pen
- Gwneud pipi mewn bedd agored yn eich cadw rhag gwlychu'r gwely yn y nos
- Cario llygoden fach farw yn eich poced yn cadw crydcymalau draw
- Rhoi eich pen yng nghorff buwch sydd newydd farw ond yn dal yn gynnes ac anadlu'n ddwfn yn cael gwared â'r diciâu
- Yfed eich pipi eich hun yn gwella sawl afiechyd e.e. y frech ieir, clefyd y galon (Mewn rhannau o Asia)
- Ceffylau môr wedi sychu yn gwella asthma(Tseina)
- Bwyta iguana i gael gwared ar iselder (rhannau o Meccsico)
- Socian dau ddarn o ddefnydd mewn gwyn ŵy a'u rhoi ar y traed i gael gwres y corff i lawr (America)
- Yfed te wedi ei wneud o faw gwartheg i wella'r annwyd (de UDA)
- Cael gwared o wddw stiff trwy fynd i'r fynwent ar Fai 1,2 neu 3 i nôl gwlith o fedd sydd newydd gael ei hagor a rhoi'r gwlith ar y gwddw (Mewn un ardal yn Lloegr)

Bydd cleifion yng Ngwlad Tai yn teithio o bell ac agos i Buriram i gael eu trin gan y meddyg swyn, Pan Rerngprasarn. Bydd yn claddu cleifion i fyny at eu gyddfau mewn tywod poeth ac yn sefyll arnynt. Mae'n credu bod hyn yn gwella popeth o gancr i salwch meddwl.



Darnau o sunsur a sgorpionau marw yn cael eu rhoi ar wyneb sydd wedi ei barlysu. Mae'r llun hwn wedi ei dynnu mewn ysbyty yn Jinan yn China.



Pigiad! O! Na!

Faint ohonoch chi sydd wedi llewygu wrth gael pigiad gan ddoctor neu nyrs? Faint ohonoch chi sy'n cael hunllefau wrth feddwl am gael pigiad neu chwistrelliad? Ond byddai bywyd yn dipyn gwaeth arnoch chi pe na bai pigiadau ar gael ar gyfer heintiau! Does dim amheuaeth eu bod nhw'n achub bywydau.



Gwelodd yr Arglwyddes Mary Wortley Montagu bobl yn cael eu chwistrellu yn Nhwrcei a hi ddaeth â'r syniad i Brydain ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Ceisiodd doctoriaid roi pigiadau ond heb lawer o lwyddiant.

Dr Edward Jenner oedd yr un lwyddodd gyntaf ym Mhrydain. Chwistrellodd bobl rhag y frech wen (smallpox).

Cafodd Jenner ei eni yn 1749 yn Berkeley yn Gloucester. Roedd ei dad yn ficer yno ond bu farw pan oedd Jenner yn 5 oed a chafodd ei fagu gan ei fam a'i frodyr a'i chwiorydd. Aeth Jenner i'r ysgol pan oedd yn 8 oed.

Roedd arno eisiau bod yn feddyg a phan oedd yn 15 aeth i weithio gyda meddyg lleol. Yn 1770 aeth i Lundain i astudio meddygaeth.

Pan basiodd yn feddyg yn 1772 aeth yn ôl i Berkeley. Byddai'n mynd i ymweld â'i gleifion ar gefn ceffyl a byddai bob amser yn gwisgo côt las. Byddai yn hoffi gofyn cwestiynau am feddyginiaethau oedd yn cael eu gwneud o blanhigion.

Yn 1788 priododd Catherine Kingscote.

Roedd y frech wen yn un o'r afiechydon yr oedd pobl yn poeni fwyaf amdano yng nghyfnod Jenner. Byddai 2000 o bobl Llundain yn marw ohono bob blwyddyn. Byddai pobl yn cael smotiau llawn pys dros eu cyrff. Os oedd y cleifion yn byw byddai'r smotiau yn gadael creithiau hyll ac yn bwyta rhannau o'r corff fel clust, trwyn neu lygad.



Un diwrnod dywedodd merch oedd yn gofalu am wartheg wrth Jenner, 'Dydw i ddim yn poeni am ddal y frech wen oherwydd rydw i wedi cael brech y fuwch (cowpox).' Afiechyd yn cael ei drosglwyddo o wartheg i bobl oedd brech y fuwch. Doedd neb yn marw ohono a doedd neb oedd wedi ei gael yn dal y frech wen.

Gofynnodd Jenner i Sarah Nelmes ei helpu. Roedd hi wedi dal brech y fuwch a chymerodd Jenner fymryn o grawn (pus) o smotyn ar ei braich. Yna gwnaeth doriad bach yng nghroen bachgen 8 oed, James Phipps. Rhoddodd y crawn yn y toriad.

Daliodd James Phipps frech y fuwch. Wyth wythnos wedyn rhoddodd Jenner ddôs isel o'r frech wen iddo. Wnaeth e ddim ei ddal. Roedd brech y fuwch wedi ei arbed.

Ysgrifennodd Jenner lyfr am ei ddarganfyddiad. Roedd gan ddoctoriaid ar hyd a lled y byd ddiddordeb yn ei waith. Cafodd anrhegion gan frenhinoedd ac arian gan lywodraeth Prydain. Yn ystod y rhyfel rhwng Prydain a Ffrainc gofynnodd Jenner i Napoleon rhyddhau carcharorion o Brydain. Ufuddhaodd Napoleon oherwydd roedd Jenner yn arwr rhyngwladol.

Er iddo ddod yn ddyn eithriadol o gyfoethog parhaodd i weithio fel doctor cefn gwlad yn gofalu am bobl dlawd a chyfoethog. Rhoddai bigiadau yn rhad ac am ddim i bobl leol. Yn 1800, chwistrellodd bron i 200 mewn diwrnod yn Petworth yn Sussex.

Wedi i Jenner farw yn 1823 bu doctoriaid yn gwella'r pigiad yn erbyn y frech wen. Yn 1980 cyhoeddodd Bwrdd Iechyd y Byd (World Health Organization) bod y frech wen wedi ei ddileu trwy'r byd.

Cynhron am byth!

Pan fyddi di'n bwyta a bwyta a bwyta beth fydd dy fam yn ei ddweud? Fydd hi'n dweud rhywbeth fel, 'Oes gen ti gynhron?' neu 'Have you got worms?' Ie, 'worms' neu 'maggots' ydy 'cynhron' ac maen nhw'n hen bethau bach sy'n bwyta trwy'r amser! Sut fydddech chi'n hoffi pe bai rhywun yn eu rhoi ar eich corff ac yn ei fwyta? Gwylwch y fideo i weld beth fyddai'n digwydd!

Cymru ar flaen y gad

Deddf Trawsblannu (Cymru)

Mae Cymru ar flaen y gad unwaith eto! Y tro hwn gyda'r Ddeddf Trawsblannu Dynol a basiwyd 10 o Fedi 2013. Bydd yn dod i rym ar y cyntaf o fis Rhagfyr 2015. Hyd hynny dewis rhoi organau y bydd pawb sy'n byw yng Nghymru.

Dewis peidio â rhoi organau fydd hi wedyn.

Diben y Ddeddf yw sicrhau mwy o organau ar gyfer trawsblannu. Bydd hynny yn golygu y bydd llai o bobl yn marw tra'n aros am organ addas.


Pan fo person yn dymuno peidio â rhoi un o'i organau bydd yn rhaid iddo ddatgan hynny yn ystod ei fywyd. Fel arall cymerir yn ganiataol fod unrhyw un sydd dros 18 oed ac wedi byw yng Nghymru am ddeuddeg mis yn fodlon i'w organau gael eu defnyddio.



Pam?

Mae trawsblannu organnau a thisiw yn un o'r triniaethau meddygol mwyaf llwyddiannus. Gall un rhoddwr wella neu achub bywyd hyd at 9 o bobl trwy gyfrannu organ a llawer mwy trwy gyfrannu tisiw. Er bod llawer o bobl yn dweud y byddent yn fodlon cyfrannu organ neu dderbyn un pe bai raid, ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn y nifer o bobl sydd ar y Gofrestr Cyfrannu Organau. Ac er bod pethau wedi gwella mae prinder organau o hyd.

Siaradwch â'ch gilydd

Mae'n bwysig gwybod beth yw dymuniad aelodau'r teulu. Bydd perthnasau'r un sydd wedi marw yn aml yn gwrthod caniatad i ddefnyddio organ am nad ydynt yn gwybod beth fyddai dymuniad yr ymadawedig. Mae ymchwiliad wedi dangos bod cyfrannu organau yn codi o 90% pan fo perthnasau yn gwybod beth yw dymuniad yr ymadawedig.





Hyd nes daw'r ddeddf i rym, fodd bynnag, mae'n bwysig bod pawb yn ystyried cyfrannu organau. Darllenwch y pamffled hwn i weld sut y gellwch gofrestru fel rhoddwr organ.

Ydydych chi chi'n credu mewn rhyw organau?

NHS
Blood and Transplant

**Ydych chi wedi
ymuno â'r
Gofrestr Rhoddwyr
Organau?**



Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG 

Os ydych chi'n credu mewn rhyw organau, profwch hynny.

**Fydddech chi'n
cymryd organ pe
byddai angen un
arnoch chi?**



Os ydych chi'n credu mewn rhyw organau,
profwch hynny. Cofrestrwch yn awr.

Mae trawsblaniadau'n achub bywydau

Byddai 96% ohonom yn cymryd organ pe byddai angen un arnom.

Ac eto dim ond 29% ohonom sydd wedi gweithredu ac wedi ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG.

Os ydych chi'n credu mewn rhoi organau, profwch hynny.

Mae Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG yn rhoi gobaith i dros 10,000 o bobl o bob oed ledled y DU y mae angen trawsblaniad organ arnynt.

Ac eto mae llawer o bobl – tri y diwrnod ar gyfartaledd – yn marw cyn iddynt allu cael trawsblaniad oherwydd nad oes, yn syml iawn, ddigon o organau ar gael.

Ydych chi'n credu mewn rhoi organau? Os ydych chi'n fodlon cymryd organ, a fydddech chi'n fodlon rhoi un a helpu rhywun arall i fyw ar ôl i chi farw?

Cofrestrwch yn awr.

Sut mae cofrestru

Mae'n hawdd ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG drwy ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

- ewch i www.organdonation.nhs.uk
- ffoniwch 0300 123 23 23
- ysgrifennwch **SAVE** mewn neges destun i **84118**
- llenwch y ffurflen hon a'i phostio

Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG

Mae Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG yn cofnodi manylion pobl sydd wedi cofrestru eu dymuniadau i roi organ a/neu feinwe ar ôl iddynt farw.

Defnyddir yr wybodaeth gyfrinachol hon gan staff meddygol awdurdodedig i gadarnhau a oedd unigolyn am roi.

Gall unrhyw un gofrestru. Nid yw oedran yn eich rhwystro chi rhag rhoi organ neu feinwe – mae pobl yn eu 70au a'u 80au wedi dod yn rhoddwyr ac wedi achub llawer o fywydau. Nid yw'r rhan fwyaf o gyflyrau meddygol yn eich eithrio chi ychwaith.

Gall un rhoddwr achub neu weddnewid hyd at naw bywyd. Drwy haelioni pobl fel chi mae modd achub bywydau.

Cofrestrwch yn awr

Dywedwch wrth y rhai agosaf atoch chi beth yw eich dymuniad am roi organau.

Cofrestrwch fy manylion ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG

Defnyddiwch BRIF LYTHRENNAU gan ddefnyddio beiro ddu. *rhaid llenwi'r maes.

Fy enw a'm cyfeiriad	
Cyfeirw*	
Enw(au) cyntaf*	
Dyddiad geni*	/ / Dyn ☐ Menyw ☐
Cyfeiriad*	
Cod post*	
Ffôn	
Symudol	
E-bost	

Fy nymuniadau	
Rwyf eisiau rhoi: (Ticiwch y blychau perthnasol)	
A. unrhyw un o'm horganau neu fy meinwe ☐ neu	
B. fy arenau ☐ calon ☐ afu/iau ☐ coluddyn bach ☐	
llygaid ☐ ysgyfaint ☐ pancreas ☐ meinwe ☐	
ar gyfer trawsblaniad ar ôl i mi farw.	

Llofnod	
Dyddiad	
Ticiwch yma os hoffech gael gwybodaeth yn y dyfodol gan Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG am roi gwaed, organau a meinwe: ☐	

Fy nharddiad ethnig	
Mae hi'n fwy tebygol y ceir cyfatebiad agosach a thrawsblaniad llwyddiannus os daw'r rhoddwr a'r derbynnydd o'r un grŵp ethnig. Ticiwch y grŵp ethnig sy'n eich disgrifio chi orau.	

Gwyn: Prydeinig ☐ Gwyddelig ☐ Arall ☐
Cymysg: Caribiaidd Du/Gwyn ☐ Asiaidd/Gwyn ☐
Affricanaidd Du/Gwyn ☐ Arall ☐
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: Indiaidd ☐ Pacistanaid ☐
Bangladeshaid ☐ Arall ☐
Du neu Ddu Prydeinig: Caribiaidd ☐ Affricanaidd ☐ Arall ☐
Categoriâu ethnig arall: Tsieinaidd ☐ Arall ☐
Ni nodwyd: ☐

Sicrwydd Diogelu Data. Unig bwrpas llenwi'r ffurflen hon yw cofnodi eich dymuniadau i fod yn rhoddwr organau. Caiff yr holl wybodaeth a nodir i Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ei defnyddio'n unol â Deddf Diogelu Data 1998. Gallai eich data gael ei ddiro ar ein rhan mewn gwlad nad yw fel rheol yn rhwng wirth gyfraith Diogelu Data'r UE. Os feily, byddwch yn sicrhau y caiff y data ei ddiogelu yn unol â gofynion yr UE. Ceir rhagor o wybodaeth am sut yr ydych chi'n gofalu am eich manylion personol yn www.nhs.uk neu drwy ffonio 0300 123 23 23.

Os ydych chi'n dymuno newid eich cofnod neu ei dynnu oddi ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG ewch wedi hysgrifennu drwy ffonio: Llenw Rhoddwyr Organau ar 0300 123 23 23, drwy fynd i www.organdonation.nhs.uk/uk/welsh/welsh.jsp neu drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad dros y ddalen.

2072

WELSH CYMRU NHS Blood and Transplant

Ydych chi wedi ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau?



Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG

Dywedwch wrth y rhai agosaf atoch chi beth yw eich dymuniad am roi organau.

O fawr'n fyw!

Gallasai pob un gollodd ei fywyd ar y Titanic fod wedi cael ei achub pe bai'r technegau modern ar gael yn 1912, meddai Dr. Parnia.

Haeriadau sy'n swnio'n anhygoel ond mae gan Dr. Parnia hyder ym mhwer ei dechnoleg newydd. Mae mor hyderus nes ei fod wedi ysgrifennu llyfr, 'Erasing Death' sy'n trafod mewn gwyddoniaeth atgyfodi modern.

"Nid rhywbeth sy'n digwydd ar amrantiad yw marwolaeth ond proses sy'n gallu cael ei wyrddroi oriau wedi iddo ddigwydd," meddai Dr. Parnia yn The Huffington Post.

Nid yw'n bosibl dod â pherson yn fyw wedi iddo fod yn farw am fwy na thair awr ond mae Dr. Parnia yn grediniol y bydd datblygiadau mewn technoleg atgyfodi dros yr ugain mlynedd nesaf yn ei gwneud hi'n bosibl i gyrff sydd wedi marw ers 24 awr gael eu hadfywio.

Ac, yn wir, mae cleifion sydd â chlefyd y galon yn Ysbyty Prifysgol Stony Brook yn Efrog Newydd yn dystion i lwyddiant Dr. Sam Parnia. Yn ôl yr ystadegau diweddaraf mae'r niferoedd o gleifion sy'n cael eu hadfywio yno ddwbl y nifer sy'n cael eu hadfywio mewn ysbytai eraill yn UDA. Caiff 33% eu hadfywio yn Stony Brook o'i gymharu â 18% yng ngweddill UDA.

Mae ymchwilwyr a meddygon yno wedi datblygu offer mwy effeithlon i ail-ddechrau'r galon. Mae niwrolegwyr wedi darganfod fod cleifion sydd yn ymddangos yn farw neu mewn coma yn ymwybodol o'r hyn sy'n mynd ymlaen o'u cwrpas ac yn gallu gwneud tasgau meddwl panfyddant yn cael gorchymyn. Maent hefyd yn paratoi paciau oeri i'w lapio am gleifion wedi i'w calonau stopio, pwmpio dŵr halen i'w gwythiennau, rhoi chwistrelliadau i ddiogelu celloedd y corff a dripiâu i roi ocsigen i wahanol rannau o'r corff wedi marwolaeth.

'Yn fy ngwaith i, nid astudio pobl sydd ar fin marw ydw i ond pobl sydd wedi marw. Rydyn ni wedi dysgu o brofiadau'r bobl sydd wedi marw am ychydig funudau neu oriau. Rydyn ni hefyd o'r farn y gall celloedd yr asgwrn fyw am bedwar diwrnod wedi marwolaeth a chelloedd y croen am 24 awr.


Mae celloedd yr ymennydd yn parhau'n fyw am 8 awr ond nid ydynt yn weithredol. Felly, os yw'r broses oeri a'r gofal wedi atgyfodi yn cael eu gwneud yn gywir gall y claf ddod yn ôl yn fyw heb nam ar ei ymennydd.'

Ym mis Mehefin 2011, darganfuwyd dynes 30 oed mewn coedwig am 8:32 a.m. Roedd hi wedi marw yn dilyn cymryd gor ddôs o gyffuriau. Roedd gwres ei chorff wedi gostwng o 37°C (98.5°F) i 20°C (68°F), oedd yn golygu ei bod wedi bod yno ers oriau. Cyrhaeddodd tîm yr ambiwlans am 8:49 a.m. a rhoi CPR iddi ond wnaeth e ddim gweithio.

Pan gyrhaeddodd y ddynes yr ysbyty am 9:22 a.m. roedd gwres ei chorff yn 20°C (68°F) o hyd, a channwyll ei llygaid yn llonydd ac ddim yn ymateb i olau oedd yn golygu ei bod yn farw. Rhoddodd y meddygon CPR iddi a rhoi aer yn ei hysgyfaint gydag awyrydd (ventilator) awtomatig. Cafodd chwistrelliadau o gyffuriau i ail gychwyn ei chalon. Er gwaethaf yr ymdrechion i'w chynhesu ni chododd ei thymheredd. Yna rhoddodd y meddygon hi ar beiriant oedd yn rhoi'r swm uchaf posibl o ocsigen iddi - ECMO

HOW IT WORKS

- 1 In cardiac arrest CPR is administered until ECMO (Extracorporeal Membrane Oxygenation) can begin
- 2 During CPR, large catheter needles are inserted, one into a major artery, the other into a corresponding vein
- 3 Chest compression ceases and extracorporeal circulation begins. Dark blood with little oxygen is drained from the body, pumped through the oxygenator where carbon dioxide is removed and oxygen added. The blood is also warmed and filtered
- 4 The oxygenated blood flows to the heart, brain, kidneys and other organs, allowing them to recuperate as the medical team try to correct the causes of the arrest



Llun o'r Observer, Sadwrn 6 Ebrill 2013

1. Pan fo'r galon yn stopio rhoddir CPR ac yna ECMO sy'n cyflenwi ocsigen.
2. Mewn CPR rhoddir nodwyddau yn y brif wythien a rhydwelien
3. Caiff gwaed tywyll gydag ychydig o ocsigen ei bwmpio i awyrydd (ventilator)lle caiff y carbon deiocsid ei dynnu allan a mwy o ocsigen ei roi i mewn.
4. Caiff y gwaed ffres ei bwmpio'n ôl i'r corff i gadw'r organau i fynd.

Wedi chwe awr o driniaeth cododd ei thymheredd i 32°C (89.5°F), ac ail- gychwynnodd ei chalon. Er iddi fod yn gorfforol farw am o leiaf 10 awr dros nos heb unrhyw driniaeth ac am chwe awr wedyn yn cael triniaeth feddygol mewn ysbyty, ymhen tair wythnos roedd yn ddigon iach i gerdded allan o'r ysbyty heb unrhyw nam ar organ nac ar ei hymennydd. Oherwydd ei bod wedi oeri'n naturiol pan stopiodd ei chalon ni chafodd ei chelloedd unrhyw niwed ac roeddent yn gallu ail-ddechrau gweithio unwaith y cawsant ddigon o ocsigen eto. Arferai hyn gael ei alw yn 'Profiad Agos at Farwolaeth' ond awgryma Dr Parnia y dylai gael ei alw yn 'Profiad Wedi Marwolaeth'.

Triniaeth debyg gafodd y peldroediwr o Bolton, Fabrice Muamba mewn ysbyty yn Llundain wedi iddo syrthio'n anymwybodol ar gae White Hart Lane yn 2012. Bu Muamba yn farw am awr . Dilynnodd

Parnia ei hanes ac mae'n chwerthin wrth ddweud, "Journalists have invented a new term, 'clinically dead'. I don't know what that term means. But the fact is Muamba was dead. And it was not by a miracle he was brought back to life, it was by science."

MMR Y Ddadi Fawr



Er i'r pigiad trifflyg MMR yn erbyn clwy'r pennau, y frech goch a rubella gael ei gyflwyno dros ddegawd yn ôl mae'n dal yn destun dadlau.

Mynna'r llywodraeth a'r mwyafrif o ddoctoriaid ei fod yn ddiogel ond dadleua eraill fod sgil effeithiau erchyll iddo.

Y DDADL O BLAID

- Mae'r frech goch yn heintus a gall fod yn farwol
- Gall adael y claf gyda nam ar yr ymennydd
- Gall clwy'r pennau achosi meningitis
- Os yw merch feichiog yn dal rubella mae siawns o 90% i'r babi fod â diffygion meddyliol a chorfforol
- Mae'r siawns o gael sgil effeithiau yn isel iawn. Mae wedi cael ei ddefnyddio ers 20 mlynedd yn y Ffindir, Norwy a Sweden, a does dim sôn am broblemau yno.
- Does dim prawf bod cysylltiad rhwng pigiad MMR a chlefyd Crohn neu awtistiaeth.
- Does dim pwrpas rhoi tri phigiad ar wahân dros gyfnod o dair blynedd. Mae'n golygu bod yn plentyn heb ddiogelwch am fwy o amser.

Y DDADL YN ERBYN

- Dywed Lynne McTaggart, awdur y llyfr What Doctors Don't Tell You and The Vaccine Bible, 'Nid yw MMR yn angenrheidiol, nid yw yn ddiogel ac nid yw yn llwyddiannus bob tro.'
- Nid yw'r clefydon yn peryglu bywyd plant sydd â system imiwn iach a rhai sy'n cael digon o faeth.
- Cyfeiria at astudiaeth sy'n dangos nad oedd 1 o bob 5 plentyn gafodd bigiad wedi datblygu gwrthgyrff yn erbyn clwy pennau.
- Mae firysau yn mynd a dod. Pan fo brech ieir yn torri allan mewn ardal mae plant sydd wedi cael eu brechu yn gallu ei ddal.
- Mae straeniau gwahanol neu newydd o firysau yn gallu gwrthsefyll pigladau
- Gall y brechiad wario gydag amser.
- Mae 2000 o rieni sy'n credu bod eu plant wedi dioddef sgil effeithiau fel cryd cymalau ac epilepsi yn perthyn i'r grŵp JABS.
- Yn yr Unol Daleithiau mae mwy na miliwn o ddoleri o iawndal wedi ei dalu i rieni sy'n honni bod eu plant wedi dioddef o ganlyniad i frechiad MMR.